1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynlluniau peilot y Cyfnod Sylfaen

Awst 2007

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad a chefndir 1

Prif ganfyddiadau 2

Argymhellion 4

Dysgu ac addysgu 5

Datblygiad cwricwlwm 8

Hyfforddiant, staffio a chyllid 10

Gwneud gwahaniaeth – monitro ansawdd 13

Atodiad 1

Atodiad 2

Cyflwyniad a chefndir

1 Nod y Cyfnod Sylfaen, a gyflwynwyd yn gynllun peilot ym mis Medi 2004, yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol ar gyfer plant rhwng tair a saith oed. Mae'n un o brif bileri rhaglen y blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nod y Cyfnod Sylfaen yw gwneud yn siwr bod plant ifanc yn datblygu ystod dda o fedrau a'u bod yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu a fydd yn rhoi'r sylfaen ar gyfer dysgu gydol oes. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth ymchwil gymhellol y'n awgrymu bod yr hyn sy'n digwydd i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn effeithio ar weddill eu bywydau. Mae'n pwysleisio manteision cadarnhaol dysgu medrau a gwybodaeth i blant trwy weithgareddau uniongyrchol sy'n galluogi iddynt arbrofi a chwarae.

2 Ar hyn o bryd, mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei brofi mewn 42 o leoliadau. Mae hyn yn cynnwys un ysgol ym mhob awdurdod addysg lleol (AALl) ac un lleoliad na chynhelir a ariennir mewn 20 o AALlau.

3 Bydd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno ym mhob ysgol a lleoliad gyda phlant rhwng tair a phump oed o fis Medi 2008.

4 Pan ddechreuodd y cynllun peilot, comisiynwyd arfarniad dwy flynedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro pa mor effeithiol yr oedd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu yn yr ysgolion a'r lleoliadau peilot (Monitro ac Arfarnu Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn Effeithiol – adroddiad MEEIFP). Y bwriad oedd dysgu o brofiadau'r ysgolion a'r lleoliadau peilot ac adlewyrchu'r gwersi hyn mewn cynlluniau i ymestyn y Cyfnod Sylfaen i bob ysgol a lleoliad yng Nghymru. Adroddodd y tîm ymchwil ei ganfyddiadau ym mis Rhagfyr 2006. I ymateb i'r canfyddiadau hyn, lluniwyd cynllun gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

5 Yn 2005-2006, yng nghylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn, gofynnodd y Gweinidog am arolwg o effaith y cyllid ar gyfer lleoedd addysg i blant tair oed. Cynhaliwyd rhai ymweliadau â lleoliadau peilot y Cyfnod Sylfaen fel rhan o'r cylch gwaith hwn. Roedd yr ymweliadau cychwynnol gan arolygwyr yn dangos ei bod yn rhy gynnar i fesur canlyniadau. Felly, cytunwyd gyda swyddogion LlCC y dylai Estyn barhau i gynnal ymweliadau er mwyn casglu tystiolaeth i lywio'r broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

6 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymweliadau â bron pob un o'r ysgolion a'r lleoliadau peilot. Rydym hefyd wedi defnyddio tystiolaeth o arolygu ysgolion a lleoliadau peilot fel rhan o'r cylch chwe blynedd o arolygiadau ysgol. Yn ystod ymweliadau, fe wnaethom arsylwi plant a chyfweld ag ymarferwyr dros gyfnod o fis Hydref 2005 i fis Rhagfyr 2006.

7 Mae llawer o'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn ailadrodd y canfyddiadau yn adroddiad MEEIFP. Rydym wedi amgáu atodiad i'r adroddiad hwn yn Atodiad 1, sy'n dangos y modd y mae 'Cynllun Gweithredu Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen' Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anelu at fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.[1]

[1] Mae'r cynllun gweithredu hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/early-wales/foundation_phase/foundation_phase_documents/?lang=en

Prif ganfyddiadau

8 Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn yr ysgolion a'r lleoliadau peilot yn frwdfrydig ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen ac yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad i'w lwyddiant. At ei gilydd, mae ymarferwyr wedi gweithio'n galed iawn i addasu arferion a dysgu ffyrdd newydd o weithio.

9 Ym mhob cynllun peilot, mae ymarferwyr yn datblygu cynllunio cwricwlwm i gefnogi'r broses o gyflwyno cynnwys y saith maes dysgu (Atodiad 2). Fodd bynnag, mae lleiafrif sylweddol o ymarferwyr yn llai sicr wrth benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Mae wedi bod yn anodd i rai lleoliadau bennu faint o gyfarwyddyd y dylai oedolion ei roi i blant ifanc yn eu gweithgareddau a faint y dylid caniatáu ac annog y plant i gynllunio drostynt eu hunain.

10 Er bod gan lawer o ysgolion a lleoliadau asesiadau adeg mynediad i blant ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, nid yw hyn yn wir bob tro. Mae hyn yn golygu nad yw pob ysgol a lleoliad yn gallu mesur cynnydd plant dros gyfnod mor effeithiol neu mor gyson o fan cychwyn cyffredin.

11 Mae gan bob ysgol a lleoliad rai prosesau asesu ar waith. Bron ym mhob lleoliad, mae ymarferwyr yn cadw cofnodion sy'n dangos y cynnydd a wna plant yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu, er nad yw rhai yn cofnodi cynnydd plant mewn dwyieithrwydd ac aml-ddiwylliannaeth. Er bod arsylwadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y mwyafrif o ysgolion a lleoliadau, nid yw pob ymarferwr yn glir ynghylch pam maent yn asesu a'r hyn y dylent ei gofnodi.

12 Er gwaethaf y ffaith fod bron pob ysgol a lleoliad wedi dyfeisio eu systemau eu hunain ar gyfer cofnodi cynnydd plant neu eu bod yn defnyddio systemau a ddatblygwyd gan eu AALl, mae'r rhain yn amrywio'n sylweddol o ran eu cynnwys. Mae'r diffyg hwn o ran meini prawf cyffredin ar gyfer cofnodi cynnydd yn golygu nad yw'r trosglwyddo rhwng ysgolion a lleoliadau, ac mewn rhai achosion rhwng dosbarthiadau, bob amser yn adeiladu'n ddigon da ar ddysgu blaenorol plant.

13 Mae bron pob ysgol a lleoliad yn gwneud mwy o ddefnydd o'r awyr agored. Fodd bynnag, mewn tua 25% o'r cynlluniau peilot, mae ymarferwyr yn ansicr neu heb eu hargyhoeddi ynghylch manteision dysgu yn yr awyr agored, ac maent yn parhau i weld hyn yn unig fel sesiynau chwarae lle defnyddir teganau ac offer mawr.

14 Yn yr arfer orau, gwneir defnydd da o fannau y tu allan i roi cyfleoedd i blant wneud pethau nad ydynt bob amser yn bosibl eu gwneud y tu mewn. Er enghraifft, gallai hyn olygu creu safle adeiladu gyda chymaint o offer go iawn ag y mae ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ei ganiatáu.

15 Er gwaethaf y ffaith fod bron pob un o'r ymarferwyr wedi cael rhywfaint o hyfforddiant ar aml-ddiwylliannaeth, nid yw'r maes hwn yn gyffredinol wedi'i ddatblygu'n dda yn y mwyafrif o ysgolion a lleoliadau, ac mae ymarferwyr yn aml yn ei gamddeall. Er enghraifft, nid yw'r profiadau dysgu ac addysgu mewn aml-ddiwylliannaeth bob amser wedi'u cynllunio'n dda ar draws pob maes dysgu ac maent yn aml yn weithgareddau ar eu pen eu hunain. Er bod y dull hwn yn codi ymwybyddiaeth o rai

agweddau ar ddiwylliannau eraill, mae perygl bod plant yn cael eu hannog i sylwi ar yr hyn sy'n wahanol i'w diwylliant eu hunain yn hytrach na'r hyn sy'n debyg. Lle mae ysgolion a lleoliadau yn datblygu datblygiad aml-ddiwylliannol da, mae ymarferwyr yn defnyddio datblygiad personol a chymdeithasol yn dda i ddatblygu gwerthoedd craidd yn eu plant, fel tegwch, goddefgarwch, hunanddelwedd cadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn.

16 Mewn ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg, mae dwyieithrwydd yn achosi pryder. Nid yw ymarferwyr yn glir ynglŷn â beth yw'r disgwyliadau ar gyfer y maes dysgu hwn. Maent yn ansicr ynghylch a ddylent fod yn anelu at wneud eu plant yn gymwys i ddefnyddio dwy iaith erbyn iddynt fod yn saith oed neu a ydynt yn unig yn addysgu Cymraeg fel ail iaith gyda disgwyliadau is. Mae negeseuon cymysg gan ystod o sefydliadau hefyd yn ychwanegu at y dryswch. Yn ogystal, nid oes gan lawer o staff yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn y medrau a'r hyder i gyflwyno'r maes dysgu hwn.

17 Er bod pob ysgol a lleoliad yn gwerthfawrogi'r cyllid ychwanegol, roedd bron pob un ohonynt yn teimlo nad oedd yn ddigon i fodloni eu hanghenion a disgwyliadau'r Cyfnod Sylfaen.

18 Dim ond ychydig o ysgolion a lleoliadau sydd â systemau effeithiol ar waith i fonitro ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth y maent yn ei chynnig yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd, a'i heffaith ar gyflawniad a chyrhaeddiad plant.

19 Mae ansawdd monitro ac arfarnu yr ysgolion a'r lleoliadau peilot gan eu AALlau yn amrywiol. Er bod pob AALl yn cynnig cymorth i ysgolion a lleoliadau peilot, nid yw llawer ohonynt wedi dechrau llunio barnau ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliadau a'r effaith a gaiff hyn ar ddysgu'r plant.

20 At ei gilydd, dywed ymarferwyr eu bod yn cael cymorth digonol gan eu hawdurdodau addysg lleol er bod gwahaniaethau o ran amgyffrediad rhwng ysgolion a lleoliadau. Mae tystiolaeth fod y lefelau cymorth a'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, yn enwedig o ran lleoliadau.

Argymhellion

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 lunio arweiniad ychwanegol a fyddai'n egluro camsyniadau ynglŷn â'r hyn y mae gweithgareddau a arweinir gan blant a gweithgareddau a arweinir gan oedolion a dysgu yn yr awyr agored yn ei olygu;

A2 dyfeisio system Cymru gyfan i gofnodi medrau plant pan fyddant yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn gallu mesur cynnydd plant yn fwy cyson dros gyfnod;

A3 datblygu system Cymru gyfan ar gyfer asesu a chadw cofnodion y gall pob ymarferwr ei defnyddio i sicrhau cysondeb a hwylsuo trosglwyddo hawdd rhwng ysgolion, lleoliadau a dosbarthiadau;

A4 diffinio ac egluro'r disgwyliadau ar gyfer dwyieithrwydd; a

A5 llunio arweiniad a hyfforddiant ar gyfer pob ymarferwr ar gynllunio, asesu a chadw cofnodion.

Mae angen i awdurdodau lleol:

A6 arwain wrth fonitro ac arfarnu eu hysgolion a'u lleoliadau peilot; a

A7 defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'r ffordd orau o baratoi ysgolion ar gyfer y gweithredu llawn yn 2008.

Mae angen i ysgolion a lleoliadau:

A8 weithio gyda'u AALlau i fonitro ac arfarnu effaith y Cyfnod Sylfaen ar gyrhaeddiad a chyflawniad plant yn fwy systematig; a

A9 gwneud yn siwr bod yr holl ymarferwyr yn ddigon hyderus i addysgu amrywiaeth ddiwylliannol a bod ganddynt y medrau iaith angenrheidiol i gefnogi datblygiad plant fel dysgwyr dwyieithog.

Dysgu ac addysgu

21 Ym mhob un o'r ysgolion a'r lleoliadau, mae arferion dyddiol wedi'u sefydlu'n dda ar y cyfan, gyda llawer yn gwneud yn siwr bod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ac yn cael eu harwain gan oedolion a gweithgareddau y mae plant yn dewis drostynt eu hunain. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn, caiff plant eu hannog i wneud eu byrbrydau eu hunain, sefydlu eu mannau chwarae rôl eu hunain, 'ysgrifennu' a 'chynhyrchu' eu dramâu eu hunain a defnyddio camerâu digidol i gofnodi eu dysgu. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn gwybod pryd a sut i ymyrryd yng ngweithgareddau'r plant i ymestyn eu dysgu a herio eu syniadau.

22 Fodd bynnag, mewn ysgolion a lleoliadau, ceir rhai enghreifftiau lle mae ymarferwyr yn ansicr ynglŷn â sut i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng caniatáu i blant ddewis pethau y maent yn mwynhau eu gwneud ac ymyrryd i gyfarwyddo gweithgareddau. Mae'r dryswch hwn yn golygu nad yw plant bob amser yn cael y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt, a gall y chwarae fynd yn ddiamcan. Mewn rhai achosion eraill, mae gweithgareddau'n cael eu cyfarwyddo gymaint gan oedolion fel nad yw plant yn cael unrhyw gyfleoedd i wneud dewisiadau na meddwl drostynt eu hunain.

23 Mewn rhai ysgolion a lleoliadau, mae ymarferwyr wedi dehongli arweiniad y Cyfnod Sylfaen i olygu y dylent gynllunio llawer llai i osgoi cael gormod o gyfarwyddyd gan oedolion yn eu dulliau. Credant y bydd plant yn dysgu ar eu pen eu hunain os ydyn nhw'n syml yn rhoi'r adnoddau iddynt. Er y bydd plant yn dysgu rhai pethau trwy'r dull hwn, mae yna fedrau pwysig penodol y mae angen i ymarferwyr eu cynllunio, eu haddysgu a'u cyfarwyddo.

24 Mae rhai ymarferwyr llai profiadol neu lai hyderus weithiau'n colli cyfleoedd i ehangu ac atgyfnerthu dysgu plant trwy holi cwestiynau heriol a pherthnasol.

Astudiaeth achos 1

Mae'r astudiaeth achos hon yn egluro'r modd y mae ymarferwyr yn adeiladu ar fedrau dysgu annibynnol plant.

Lleoliad ysgol cyfrwng Cymraeg a gynhelir yng Ngogledd Cymru yw'r lleoliad hwn, sy'n cynnwys tua 30 o ddisgyblion.

Mae un deg pedwar o ddysgwyr rhwng tair a saith oed yn cael blas ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae athro amser llawn a chynorthwy-ydd ystafell ddosbarth yn annog y plant i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain trwy benderfynu pryd y byddant yn cwblhau unhryw dasgau wedi'u cyfarwyddo gan yr athro yn ystod y dydd. Mae'r plant yn dysgu'n gyflym sut i reoli eu hamser yn dda a'r hyn y dylent ei ddysgu. Mae'r oedolion yn darparu ystod o weithgareddau ychwanegol a gynlluniwyd yn ofalus, yn ogystal â gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis drostynt eu hunain. Mae'r cynllunio yn fanwl, wedi'i seilio ar fedrau ac yn hyblyg. Er enghraifft, os yw'r athro dosbarth yn cynllunio'r defnydd o eiriau sy'n disgrifio, bydd hyn yn digwydd mewn llawer o wahanol gyd-destunau yn ystod y dydd gydag ymarferwyr, sy'n ymwybodol o'r hyn y dylai eu ffocws fod. Mae plant hŷn yn cwblhau cerdyn amser gwaith ar ddechrau'r dydd i ddangos yr hyn y maent yn bwriadu ei wneud.

25 At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau yn gwneud defnydd da o'r awyr agored i ddatblygu medrau corfforol, personol a chymdeithasol plant a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd.

26 Bron ym mhob ysgol a lleoliad, mae staff yn gwneud mwy o ddefnydd o'r awyr agored nag o'r blaen, er bod lleiafrif sylweddol yn parhau i fod yn ansicr o'i fanteision. Mewn ysgolion a lleoliadau lle mae ymarferwyr yn llai hyderus mewn defnyddio methodoleg y Cyfnod Sylfaen, mae cynllunio ar gyfer defnyddio'r awyr agored yn aml yn canolbwyntio ar y gweithgareddau y mae oedolion yn eu darparu yn hytrach na'r hyn y gall y plant ei ddysgu. I'r ysgolion a'r lleoliadau hyn, mae perygl i ddysgu yn yr awyr agored fod yn faes dysgu ychwanegol yn hytrach na chyd-destun arall i ddatblygu pob maes dysgu.

27 Yn yr ysgolion a'r lleoliadau gorau yr ymwelwyd â nhw, mae plant yn dysgu llawer o ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored. Maent yn mwynhau'r hyn a wnânt a chânt ryddid i arbrofi a rhoi cynnig ar bethau. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau yn parhau i drefnu sesiynau yn yr awyr agored, yn enwedig yn ystod y gaeaf ac ar ddechrau'r gwanwyn. Fodd bynnag, dim ond rhai ysgolion a lleoliadau sy'n caniatáu mynediad agored trwy gydol y flwyddyn. Mae peidio â chael mynediad agored yn cyfyngu'r dewisiadau y gall plant eu gwneud ac nid yw bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r awyr agored fel adnodd ychwanegol.

28 Mewn llawer o ysgolion a lleoliadau, nid yw'r adeilad yn caniatáu mynediad agored. Weithiau, mae'r diffyg dillad addas ar gyfer yr awyr agored yn cyfyngu mynediad agored ac eithrio ar ddiwedd tymor y gwanwyn ac yn ystod tymor yr haf. Mewn lleiafrif o leoliadau, mae ymarferwyr yn pryderu am ymateb rhieni pe bai eu plant yn yr awyr agored mewn tywydd garw. Mae rhai ymarferwyr yn ansicr neu heb eu hargyhoeddi ynghylch sut y gellir datblygu pob maes dysgu y tu allan. Mae angen parhaus am gymorth a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn yr agwedd newydd hon ar ddarpariaeth y cwricwlwm.

29 Bron ym mhob ysgol ac mewn llawer o leoliadau, mae mwy o amser yn cael ei dreulio erbyn hyn yn arsylwi gweithgareddau plant. Fodd bynnag, nid yw pob ymarferwr yn glir ynglŷn â'r hyn y dylent ei gofnodi pan fyddant yn arsylwi plant ac maent yn aml yn nodi'r hyn y mae'r plant yn ei wneud yn hytrach na'r hyn y maent yn ei ddysgu. Mewn rhai achosion, yn y ddau sector, treulir gormod o amser yn asesu plant ar draul rhyngweithio'n bwrpasol â nhw. Serch hynny, mae'n ddefnyddiol parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol i gofnodi'r asesiadau hyn. Er enghraifft, mae ymarferwyr mewn ysgolion yn cadw nodiadau maes dyddiol, cofnodion wythnosol, ysgolion medrau a thaflenni asesu tasgau â ffocws. Mewn lleoliadau, mae ymarferwyr yn cofnodi cynnydd plant gan ddefnyddio nodiadau 'post-it', dyddiaduron dosbarth anferth a llyfrau nodiadau.

30 Yn yr arfer orau mewn cynllunio ac asesu, mae ymarferwyr:

- yn cynllunio'n ofalus ar draws pob maes dysgu i wneud yn siwr bod cydbwysedd da o weithgareddau y tu mewn a'r tu allan;

- yn rhoi cyfleoedd da i blant chwarae yn annibynnol ac mewn grwpiau;

- yn gwybod pa fedrau y mae arnynt eisiau i'w plant ddysgu ac yn hyblyg ynglŷn â sut y gellir cyflawni hyn;
- yn rhoi lle yn eu cynllunio i ystyried diddordebau plant;
- yn cynllunio ar y cyd ag ymarferwyr eraill, gan rannu syniadau;
- yn cynllunio amser i arsylwi plant yn chwarae ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol; ac
- yn asesu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio camau yn eu datblygiad yn y dyfodol.

Astudiaeth achos 2

Mae'r astudiaeth achos hon yn egluro enghraifft o arferion asesu da mewn lleoliad na chynhelir.

Lleoliad ysgol cyfrwng Saesneg na chynhelir yng Ngogledd Cymru yw'r lleoliad hwn, sy'n cynnwys tua 30 o ddisgyblion.

Ymwelwyd â'r lleoliad hwn yn eithaf buan ar ôl i'r cynllun peilot ddechrau, ond roedd staff eisoes yn cyflwyno rhai arferion arloesol mewn asesu a chofnodi. Mae gan bob plentyn yn y lleoliad Flwch Trysorau lle cedwir samplau o bethau y mae'r plentyn wedi eu cyflawni neu nodiadau o weithgareddau y maent wedi eu mwynhau yn ystod sesiwn. Mae'r mecanwaith hwn nid yn unig yn cofnodi cynnydd plant ond mae hefyd yn dathlu cyflawniad pob plentyn waeth pa mor fach ydyw. I wneud yn siwr bod rhieni a gofalwyr yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn, mae gan bob plentyn flwch cyswllt cartref hefyd. Yn y blwch, mae pethau y mae'r plentyn wedi eu gwneud yn ystod y sesiwn, ac mae ymarferwyr y lleoliad yn aml yn ychwanegu nodiadau 'post-it' hefyd i roi gwybod i rieni a yw eu plentyn wedi gwneud neu ddweud rhywbeth arbennig.

31 Mae'r ffyrdd y mae ymarferwyr yn cofnodi ac yn olrhain cynnydd plant ar draws y cyfnod yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd, ysgolion a lleoliadau, ac mewn rhai achosion rhwng dosbarthiadau yn yr un darparwr. Er enghraifft, mae rhai systemau cofnodi yn olrhain cynnydd plant o 3-7 oed, tra bo systemau eraill yn olrhain plant o 3-5 oed. Mae rhai systemau yn cofnodi medrau plant, tra bydd systemau eraill yn cynnwys gwybodaeth y maent wedi ei chaffael yn ogystal â medrau. Mae'r arferion gwahanol hyn yn golygu ei bod yn anodd olrhain cynnydd plant wrth iddynt symud ymlaen. Heb gysondeb ymhlith ymarferwyr ynglŷn â'r hyn y dylid ei gofnodi, mae hefyd yn bosibl y bydd hyn yn tarfu ar ddysgu'r plant. Yn hytrach nag adeiladu ar yr hyn sydd eisoes wedi'i feistroli, gall plentyn ailgydio yn yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu oherwydd nad yw'r system olrhain yn ddigonol. Nid oes yna system olrhain gytûn a luniwyd yn ganolog ar hyn o bryd.

Datblygiad cwricwlwm

32 Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn falch â'r arweiniad cwricwlwm a gawsant gan yr Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (ABADGOS) i gefnogi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

33 Roedd arweiniad yn araf yn cyrraedd ysgolion a lleoliadau ar y dechrau, ac achosodd hyn rywfaint o bryder i ymarferwyr gan nad oeddent yn siwr beth i'w wneud. Er bod llawer o leoliadau yn ystod y diffyg arweiniad yn rhywbeth negyddol, dywedodd rhai lleoliadau bod hyn wedi rhoi rhyddid iddynt ddatblygu eu dull eu hunain ar gyfer dysgu ac addysgu.

34 Mae ymarferwyr yn gyffredinol hapus â chynnwys cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, er bod ein hymweliadau yn dangos bron ym mhob cynllun peilot bod gan ymarferwyr lai o ddealltwriaeth ynglŷn â sut i gyflwyno dwyieithrwydd (lle bydd angen) ac aml-ddiwylliannaeth, na meysydd dysgu eraill.

35 Mewn ysgolion a lleoliadau lle mae ymarferwyr yn hyderus ac yn brofiadol, maent wedi defnyddio arweiniad yn dda i gynllunio'r cwricwlwm yn ofalus a gwneud yn siwr eu bod yn cynnwys pob maes dysgu (MD) yn briodol dros gyfnod. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y lleoliadau hyn, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu aml-ddiwylliannaeth a dwyieithrwydd (lle bydd angen) weithiau wedi'i strwythuro gystal. Mewn ysgolion a lleoliadau sydd ag ymarferwyr llai hyderus, nid yw'r meysydd dysgu hyn yn datblygu cystal â MD eraill. Mae hyn oherwydd bod ymarferwyr yn llai sicr ynglŷn â'r mathau o weithgareddau y dylent eu cyflwyno er mwyn eu datblygu yn effeithiol.

36 Bron ym mhob ysgol a lleoliad, mae ymarferwyr yn cyflwyno plant i aml-ddiwylliannaeth trwy:

- ddathlu prif wyliau diwylliannau eraill yn ystod y flwyddyn, fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd;
- adrodd hanesion am hanes neu ffydd diwylliannau eraill;
- annog plant i flasu bwydydd o wahanol wledydd;
- datblygu corneli chwarae rôl ble gall plant 'ymweld' â gwledydd eraill; a
- rhoi cyfleoedd i blant astudio dawns, celf a dylunio o bob cwr o'r byd.

37 Yn yr arfer orau, defnyddir gwybodaeth am blant o wledydd eraill yn sensitif. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion a lleoliadau, mae dealltwriaeth wannach gan ymarferwyr yn golygu bod plant yn cael eu gwneud yn rhy ymwybodol o'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng diwylliannau a phobl yn hytrach na deall yr elfennau tebyg. Mae stereoteipiau felly'n cael eu hatgyfnerthu yn hytrach na'u herio weithiau.

38 Ers ein hymweliadau ag ysgolion a lleoliadau, a gynhaliwyd hyd at fis Rhagfyr 2006, mae ABADGOS wedi wedi llunio fframwaith drafft newydd ar gyfer ymgynghori. Mae'r fframwaith hwn wedi newid y gofyniad i addysgu aml-ddiwylliannaeth, nad yw bellach yn cael ei gysylltu â dwyieithrwydd. Yn hytrach, cyfeirir at aml-

ddiwylliannaeth fel amrywiaeth ddiwylliannol ac mae bellach yn rhan o MD datblygiad a lles personol a chymdeithasol. Mae hyn yn fuddiol i ymarferwyr gan ei fod yn awr yn gliriach o lawer y dylid addysgu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar draws pob maes dysgu ac nid fel maes ar wahân.

39 Mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg, mae bron pob un o'r ymarferwyr yn frwdfrydig ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg gyda'r plant, ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn gadarnhaol iawn. Er bod mwy o ddefnydd o Gymraeg achlysurol yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn, mae dwyieithrwydd ar gyfnod datblygu cynnar o hyd.

Hyfforddiant, staffio a chyllid

40 Mae pob AALl wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu rhywfaint o hyfforddiant ar gyfer staff yn eu hysgolion a'u lleoliadau peilot. Rhoddir hyfforddiant i'r ysgolion a'r lleoliadau peilot yng nghyd-destun hyfforddiant awdurdod cyfan yn bennaf, ac er bod y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi hyn yn y cynlluniau peilot, teimla llawer ohonynt eu bod weithiau yn hyfforddi pobl eraill yn y sefyllfa hon trwy rannu eu profiadau, yn hytrach na chael eu hyfforddi.

41 Er bod y rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau yn cydnabod cymorth yr AALl, mae rhai ysgolion a lleoliadau yn teimlo na chawsant ddigon o gymorth ymarferol i'w helpu i fodloni eu hanghenion unigol. Byddai llawer o ysgolion a lleoliadau yn hoffi cael mwy o sicrwydd gan eu AALlau bod yr hyn y maent yn ei wneud yn gywir.

42 Mae rhywfaint o ddryswch ymhlith staff, lle caiff cyfarwyddyd ei roi yn Saesneg yn bennaf, o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt i wneud plant yn ddwyieithog. I lawer o gynlluniau peilot, yn enwedig yn y sector na chynhelir, mae hyn yn ddisgwyliad amhosibl, oherwydd yn aml nid oes gan ymarferwyr y medrau Cymraeg i wneud hyn.

43 Mewn trafodaethau gydag ymarferwyr, mae ysgolion peilot ar y cyfan yn hapusach â'r hyfforddiant a gawsant na'r lleoliadau peilot. Er enghraifft, caiff y rhan fwyaf o ysgolion fynediad rheolaidd i hyfforddiant gan yr AALl, ac maent wedi cael bod hyn yn fuddiol. Caiff y rhan fwyaf o leoliadau fynediad i rywfaint o hyfforddiant, er bod llawer yn teimlo bod y cynnwys a'r ffocws weithiau wedi'u cyfeirio gormod at ysgolion. Mae lleiafrif bach o leoliadau yn teimlo ar wahân a'u bod yn cael eu gwthio i'r cyrion.

44 Mae llawer o AALlau wedi datblygu grwpiau rhwydweithio anffurfiol ar gyfer yr ysgolion a'r lleoliadau peilot a chaiff y rhain yn gyffredinol eu gwerthfawrogi gan staff fel ffordd o drafod pryderon a rhannu gwybodaeth. Yn sgil cynnwys ysgolion a lleoliadau Dechrau Cynnar yn y cynllun peilot o fis Medi 2007, mae mwy o gyfleoedd i ddatblygu'r arfer dda hon.

45 Mae grwpiau rhwydwaith ffurfiol ar gyfer yr ysgolion a'r lleoliadau peilot hefyd wedi cael eu sefydlu gan Dîm Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Diogelwch a Thîm Cwricwlwm ac Asesu 3-14 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r sesiynau grŵp hyn yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r Cyfnod Sylfaen yn ogystal â mecanwaith ar gyfer ymgynghori. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol a lleoliad yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd.

46 Mae pob ysgol a lleoliad yn gwerthfawrogi'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi defnyddio eu hadnoddau eu hunain yn ogystal â'r cyllid hwn. Mewn rhai ysgolion, defnyddiwyd cyllid i ddatblygu mynediad y tu allan neu i greu mwy o le i staff ychwanegol yn yr ystafell staff. Yn y sector na chynhelir, defnyddir y rhan fwyaf o'r cyllid a geir i brynu adnoddau newydd, sy'n gadael ychydig ar gyfer hyfforddi staff. Yn y ddau sector, mae cyllid ychwanegol wedi galluogi ysgolion a lleoliadau i brynu adnoddau dysgu ychwanegol i gefnogi pob maes dysgu. At ei gilydd, mae staff yn teimlo nad yw'r cyllid ychwanegol a roddwyd wedi bodloni eu holl anghenion o ran adnoddau ac adeiladau.

47 Mae cymarebau staffio wedi gwella yn y sector a gynhelir ac mae'r cyllid ar gyfer staff ychwanegol wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer y lleoliadau hyn. Fodd bynnag, roedd llawer o ysgolion yn teimlo bod angen cyfnod o addasu i wneud defnydd llawn o staff ychwanegol oherwydd bu'n rhaid i athrawon ddysgu medrau newydd o weithio mewn timau llawer mwy. Er enghraifft, gallai athro dosbarth mewn dosbarth o blant pump oed (dosbarth derbyn) yn awr fod yn rheoli tîm o ddau gynorthwy-ydd ychwanegol lle byddent o'r blaen efallai ond wedi cael cymorth wedi'i amserlennu am gyfnodau byrrach. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn gwneud cynnydd da wrth gydlynu a monitro gwaith timau mawr ac maent yn canolbwyntio eu cynllunio yn well ar ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o anghenion plant a'u datblygiad. Lle na chaiff ymarferwyr ychwanegol bob amser eu defnyddio'n gywir, nid ydynt yn cael digon o arweiniad ar beth i'w wneud i ymestyn a herio syniadau plant. Mewn rhai ysgolion a lleoliadau, nid yw ymarferwyr bob amser yn cyflwyno modelau da yn y ffordd y maent yn defnyddio iaith.

48 Yn y sector na chynhelir, mae cymarebau staffio wedi aros yr un fath. Mae hyn oherwydd ei bod eisoes yn ofynnol i leoliadau na chynhelir gael cymarebau staffio o un aelod o staff i wyth o blant yn ofyniad ar gyfer cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

49 Yn ystod ein hymweliadau, roedd ymarferwyr ym mhob ysgol a lleoliad wedi ymgysylltu'n bwrpasol â phlant, er nad oedd gan ymarferwyr profiadol y medrau holi anghenrheidiol weithiau i ymestyn dysgu'r plant.

Astudiaeth achos 3

Mae'r astudiaeth achos hon yn egluro enghraifft o arweinyddiaeth effeithiol mewn hyfforddiant a chefnogi staff newydd.

Ysgol gynradd fawr cyfrwng Saesneg yn Ne Cymru yw'r lleoliad. Adeg yr ymweliad, roedd tua 60 o ddysgwyr rhwng tair a phump oed yn cael blas ar y Cyfnod Sylfaen.

Yn yr ysgol hon, mae'r pennaeth wedi bod yn rhagweithiol wrth ddyfeisio systemau i ddatblygu ac annog gwaith tîm rhwng yr holl staff cymorth sydd ynghlwm wrth helpu i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Penodwyd ymarferwr blynyddoedd cynnar profiadol yn uwch weithiwr cymorth sydd â rôl allweddol mewn datblygu'r tîm newydd. Ei rôl yw goruchwylio gwaith y tîm cymorth bob dydd a chynnal cyfarfodydd anffurfiol i wneud yn siwr bod staff newydd yn benodol yn gyfforddus yn eu rolau.

Cefnogir yr uwch weithiwr cymorth gan Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol sy'n cyfarfod â hi yn rheolaidd a'r tîm cymorth cyfan bob tymor. Mae'r pennaeth hefyd yn cyfarfod â'r tîm cymorth bob tymor. Yn ystod y cyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol hyn, trafodir materion a phryderon, rhennir arfer a syniadau da, a chynhelir rhywfaint o hyfforddiant.

Mae gan yr holl staff cymorth ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus ac mae ganddynt dargedau gwelliant personol. Mae'r targedau hyn wedi eu cysylltu'n benodol â datblygu medrau sydd eu hangen yn y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, mae gan staff dargedau personol i ddefnyddio mwy o Gymraeg achlysurol gyda'r plant. I hwyluso hyn, mae'r ysgol yn datblygu banciau ymadroddion y gall staff cymorth eu defnyddio yn ystod gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan.

Mae'r ysgol yn defnyddio diwrnodau cau i hyfforddi holl staff y Cyfnod Sylfaen gyda'i gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael negeseuon cyson a bod ganddynt ddealltwriaeth ar y cyd.

Gwneud gwahaniaeth – monitro ansawdd

50 Nid oes digon o ysgolion a lleoliadau yn mesur effaith y Cyfnod Sylfaen ar gyflawniad a chyrhaeddiad plant neu'n monitro ac yn arfarnu ansawdd eu darpariaeth.

51 Dim ond rhai ysgolion a lleoliadau sy'n rhoi enghreifftiau o ddata sy'n dangos gwelliant mesuradwy yng nghyflawniad plant. Mae un lleoliad a gynhelir wedi dadansoddi ei sgorau gwaelodlin statudol ar gyfer y blynyddoedd diwethaf i chwilio am dueddiadau gwella. Mae lleoliad arall a gynhelir yn olrhain presenoldeb plant ac yn honni bod presenoldeb gwell yn arwydd da bod y cwricwlwm yn addas i fwy o blant. Er bod cofnodi data yn systematig dim ond yn un ffordd o gael gwybodaeth am gynnydd plant, mae'n achos pryder mai dim ond rhai lleoliadau sy'n defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill yn systematig ac yn ei ddadansoddi i farn effaith y cwricwlwm newydd.

52 Bron ym mhob ysgol a lleoliad, y mesur ar gyfer barnu effaith yn gyffredinol yw amgyffrediad ymarferwyr o ba mor dda y mae plant yn gwneud. Mae ymarferwyr yn adrodd, er enghraifft, bod plant yn fwy hyderus ac yn hapusach, a'u bod yn gallu canolbwyntio am gyfnodau hwy. Mewn rhai lleoliadau, yn y sector a gynhelir a'r sector na chynhelir, mae staff yn adrodd bod bechgyn yn ymgymryd llawer mwy â'u gweithgareddau, yn enwedig os yw'r gweithgareddau yn yr awyr agored. Mae dros draean o ysgolion hefyd yn adrodd bod medrau siarad a gwrando plant wedi gwella. Mae ychydig yn llai na chwarter yr arweinwyr grŵp mewn lleoliadau na chynhelir yn nodi bod yr effaith fwyaf yn y Cyfnod Sylfaen yn ymwneud â gwelliannau yn hyder y staff.

Astudiaeth achos 4

Mae hon yn enghraifft o ble mae ymarferwyr profiadol a gwybodus yn defnyddio eu gwybodaeth am arferion da yn y blynyddoedd cynnar i ddatblygu gwaith yn y Cyfnod Sylfaen.

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a gynhelir yng Ngogledd Cymru yw'r lleoliad hwn, sy'n cynnwys tua 150 o ddisgyblion.

Neilltuir dwy athrawes amser llawn, un athrawes feithrin ac un cynorthwy-ydd addysgu i dri deg un o ddysgwyr rhwng tair a saith oed.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd eithriadol o dda o'r amgylchedd awyr agored. Mae'r plant iau yn benodol yn datblygu ystod eang o eirfa o ansawdd da a medrau rhyngbersonol ardderchog trwy weithio mewn parau a grwpiau, er enghraifft, trwy adeiladu castell.

Mae plant o bob oed yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn amgylchedd cefnogol a heriol.

Mae cynllunio ardderchog ar bob lefel yn sicrhau bod gan y pennaeth a staff y blynyddoedd cynnar amcanion tymor hir, canolig a byr i alluogi plant i fynd yn eu blaenau o gyfnodau cynnar y Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2. Gwneir defnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) athrawon hefyd i hwyluso cynllunio ar y cyd. Defnyddir staff cymorth yn dda iawn: nid oes yna unrhyw wahaniaeth amlwg rhwng staff 'addysgu' a staff 'nad ydynt yn addysgu'. Mae staff yn pwysleisio bod a wnelo arfer dda yn syml â pharhad addysgeg bresennol gadarn ar gyfer addysgu disgyblion y blynyddoedd cynnar.

Mae'r pennaeth yn rhoi arweinyddiaeth gref ac mae'n wybodus iawn am ddysgu ac addysgu plant ifanc.

Atodiad 1

Argymhellion Estyn	**Cynllun Gweithredu Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cynulliad Cymru** **Pwyntiau gweithredu**
A1: llunio arweiniad ychwanegol a fyddai'n egluro camsyniadau ynglŷn â'r hyn y mae gweithgareddau a arweinir gan blant a gweithgareddau a arweinir gan oedolion a dysgu yn yr awyr agored yn ei olygu.	Rhoi rhaglen hyfforddiant mewn swydd bwysig ar waith ar gyfer athrawon a staff eraill sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Ariannu 22 o Swyddogion Hyfforddi a Chymorth Cyfnod Sylfaen. Dylai'r holl ddeunyddiau arweiniad gynnwys geirfa o dermau. Arweiniad newydd i gynnwys addysgu a dysgu, chwarae/dysgu gweithredol ac arsylwi plant.
A2: dyfeisio system Cymru gyfan i gofnodi medrau plant pan fyddant yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn gallu mesur cynnydd plant yn fwy cyson dros gyfnod.	Adolygu gweithredu'r gwaelodlin a'r gofynion cyfredol.
A3: datblygu system gofnodi Cymru gyfan a fydd yn galluogi mwy o gysondeb rhwng ymarferwyr ac yn cynorthwyo wrth sicrhau trosglwyddo da rhwng lleoliadau a dosbarthiadau.	Datblygu Proffil Cyfnod Sylfaen drafft (cofnod plentyn ac arweiniad i ymarferwyr) i gofnodi cyflawniadau parhaus a chyfnodau datblygu plant ac at ddibenion trosglwyddo.
A4: diffinio ac egluro'r disgwyliadau ar gyfer dwyieithrwydd.	Bydd arweiniad pellach yn cynnwys dwyieithrwydd. Adolygu rôl gyfredol yr Athrawon Bro. Cyllid ar gyfer Athrawon Cymorth Lleoliadau Cyfnod Sylfaen.

A5: llunio arweiniad a hyfforddiant ar gyfer pob ymarferwr ar gynllunio, asesu a chadw cofnodion.	Datblygu enghreifftiau o arweiniad safonau ar gyfer y saith Maes Dysgu. Rhoi rhaglen hyfforddiant mewn swydd bwysig ar waith, wedi'i chefnogi gan Becyn Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer athrawon a staff arall sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Ariannu 22 o Swyddogion Hyfforddi a Chymorth y Cyfnod Sylfaen. Rhoddwyd arweiniad i ymarferwyr ar gyfnodau datblygiad plant a fydd yn cefnogi'r broses o arsylwi ac asesu'r plant. Cyllid ar gyfer Athrawon Cymorth Lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen.
A6: gwneud yn siwr bod yr holl leoliadau yn cael eu hariannu'n addas i weithredu'r Cyfnod Sylfaen.	Adolygu'r trefniadau cyllid ar gyfer Grantiau Refeniw'r Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen. Awdurdodau lleol i archwilio adeiladau y tu mewn a'r tu allan.

Atodiad 2

Meysydd Dysgu[2]

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Medrau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Datblygiad Mathemategol

Dwyieithrwydd

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Datblygiad Corfforol

Datblygiad Creadigol

[2] Cymerwyd Meysydd Dysgu o Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant, Dogfen Ymgynghori, Ionawr 2007.